

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 21 Chwefror, 2017 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones (Cadeirydd), Mr J Cotterell, (Benllech A), Mr P Day, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mr D Hughes, (Benllech A), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mrs J Peers, (Llanbedrgoch), Mrs D Roberts, (Benllech B), Mr I Williams, (Benllech B), Miss N Williams, (Benllech B).

158 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd - ymddiheuriadau am absenoldeb gan :- Ms G M Davies, (Benllech A).

159 COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Ionawr, 2017, fel rhai cywir.

LLWYBRAU, FFYRDD A PHALMENTYDD

160 CYNGOR SIR YNYS MON – YMATEB I FATERION PRIFFYRDD

Cyflwynwyd er gwybodaeth – gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Mon oedd yn ymateb i faterion priffyrdd a gyfeirwyd ato gan y Cyngor Cymuned.

161 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan yr aelodau – amryw o faterion priffyrdd oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

162 CYMDEITHAS ADLONANT BENLLECH - Y CYRTIAU TENIS

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr gan Gymdeithas Adloniant Benllech yn cydnabod gyda diolch am rodd bwriedig tuag at ail wynebu'r cyrtiau tenis gyda gyneb bob tywydd.

163 UN LLAIS CYMRU – AELODAETH 2017/18.

Cyflwynwyd – cynnig gan Un Llais Cymru i barhau ac aelodaeth o'r corff am y flwyddyn 2017/18.

PENDERFYNWYD – i ymaelodi am 2017/18 ar gost o £543.

164 GRANTIAU A RHODDION.

Cyflwynwyd – cais am grant gan y canlynol :-

- (i) Cylch Meithrin, Moelfre.
- (ii) Capel Glasinfryn, Llanbedrgoch.

PENDERFYNWYD – ar sail y pwerau a roddwyd yn Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), ac oherwydd bod y Cyngor o'r farn fod y gwariant yn unol a gofynion yr Adran, cymeradwyo talu :-

grant o £50 i Gapel Glasinfryn, Llanbedrgoch.

Cyfeirio Cylch Meithrin Moelfre at Gyngor Cymuned Moelfre.

(Datganodd Mrs D Roberts ddiddordeb yn y mater o gais Capel Glasinfryn, Llanbedrgoch ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio)

BILIAU A CHYFRIFON

165 BILIAU

PENDERFYNWYD - talu'r biliau a ganlyn :-

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£105-00
Eira Fon Parry	Gwasanaeth cyfieithu	£56-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
Scottish Power	Trydan goleuadau Nadolig	£23-23
Cyngor Sir Ynys Mon	Gwaith trydanol i'r sustem Teledu cylch cyfyng	£553-86
MacVenture Play Co Ltd	Atgyweiriadau Caer Berllan	£660-00

Swyddfa Archwilio
Cymru

Archwiliad Cyfrifon
2015/16

£191-10

166 CYFRIFON

Cyflwynwyd - cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) yn Ionawr, 2017.

PENDERFYNWYD – nodi'r cyfrif a chymeradwyo'r taliadau.

167 CYLLIDEB Y CYNGOR

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o Ebrill 1, 2016 i ddiwedd mis Ionawr, 2017.

PENDERFYNWYD – nodi a chymeradwyo'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

168 AMCANGYFRIFON 2017/2018.

Yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod mis Ionawr parthed Amcangyfrifon gwariant y Cyngor ar gyfer 2017/2018, penderfynwyd codi swm y cyflogau £5,000 ar gyfer cyflogi gweithiwr tymhorol dros yr haf. Dengys yr Amcangyfrifon diwygiedig y newid yn swm y cyflogau.

169 PLAC COFFAOL.

Trafodwyd gais gan Mr Glyn Roberts i gael Plac Coffaol wedi ei osod ar fainc uwchben y Wendon. Dymuniad Mr Roberts oedd cael yr eirfa ganlynol ar y Plac, "In fond memory of Joyce and Howell. We spent many happy holidays here. You are in our hearts always. Anne and Glyn".

PENDERFYNWYD – caniatáu gosod y Plac Coffaol gyda'r eirfa uchod arno.

170 GWEITHIWR TYMHOROL.

Eglurodd y Clerc ei fod wedi gwneud mwy o ymchwil parthed cyflogi gweithiwr tymhorol o fis Ebrill hyd fis Hydref i gyflawni gwaith cynnal a chadw i asedau'r Cyngor Cymuned, megis, seddau, offer chwarae, cysgodfeydd bws a'r Fynwent Gyhoeddus. Hefyd cychwyn cynllun adfywio'r pentref trwy blannu gwelyau a basgedi blodau. Yn ogystal buasai gwaith cynnal a chadw ychwanegol yn deillio o drosglwyddo asedau fel y toiledau cyhoeddus a'r Llyfrgell gan Gyngor Sir Ynys Mon.

Y bwriad fuasai cynnig cyflog o £9 yr awr am ugain awr yr wythnos, sef £720 y mis neu £5040 dros gyfnod y tymor yn ei gyfanrwydd.

PENDERFYNWYD – symud ymlaen i hysbysebu'r swydd, gyda'r Pwyllgor Personel yn ystyried y ceisiadau ac yn gwneud rhestr fer o'r ymgeiswyr i'r Cyngor llawn ystyried cyfweiliadau.

171 TRAFFIG YN SGWAR BENLLECH.

Yn dilyn ymateb negyddol gan y gymuned fusnes yn y pentref i fwriad Cyngor Sir Ynys Mon i osod llinellau melyn dwbl o'r sgwar i fynedfa stad Tyddyn Fadog mewn ymdrech i leihau tagfeydd traffig yn Sgwar Benllech, trafodwyd y mater ymhellach.

Cafwyd cyflwyniad byr gan Carol Hume, a siaradodd ar ran y gymuned fusnes, yn awgrymu mai ateb gwael i broblem fwy oedd y llinellau melyn dwbl. Awgrymodd fod gwneud Lon Llangefni o'r sgwar i gyffordd Lon Pant y Cudyn yn unffordd yn ateb gwell. Buasai'r mesur yma hefyd yn gwneud yr ardal o gwmpas Ysgol Goronwy Owen yn fwy diogel gan leihau nifer y moduron. Yn ogystal cyflwynodd ddeiseb yn gwrthwynebu bwriad y Cyngor Sir gyda dros 400 o enwau arno.

Trafodwyd y sefyllfa gan yr aelodau ymhellach a chynigwyd gwahanol atebion i'r broblem. Fodd bynnag, cytunwyd fod angen cyfuniad o fesurau i wella'r broblem ac efallai nad oedd ateb llawn. Rhaid cofio nad yw lonydd cul wedi eu hadeiladu gyfnod maith yn ol wedi eu dylunio i lif traffig cynyddol yr unfed ganrif ar hugain.

PENDERFYNWYD – galw Cyfarfod Cyhoeddus a gwadd Uwch Swyddog o'r Adran Priffyrdd i fod yn bresennol.

CYNLLUNIO

172 CEISIADAU

PENDERFYNWYD ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn:-

1. Caniatau :

30C804	Pine Lodge, Ffordd Cynlas, Benllech
30C805	Elm Grove, Red Wharf Bay,
30C251H/VA	Cae Ysgawen, Brynteg.
30C803	Benreoch, 78 Bay View Road, Benllech.
30C806	Pen y Buarth, Brynteg.
30C807	12 Breeze Hill, Benllech.
30C477B/DEL	Cae'r Gaseg, Brynteg.

2. Gwrthod :

30C309	Pen y Lon, Traeth Coch – teimlir fod y cais hwn yn groes i bolisi ac ei fod yn ymdrech i adeiladu ty newydd yng nghefn gwlad (mae'r D & A Statement yn dweud hyn) Yn ogystal mae pryderon trafndiaeth, mae'r safle ar gongl brysur iawn yn arbenig felly yn nhymor yr haf.
--------	--

173 PENDERFYNIADAU

Adroddwyd er gwybodaeth - penderfyniadau cynllunio diweddar Gyngor Sir Ynys Môn.

174 CYFARFOD CYHOEDDUS PAR DATBLYGIAD BWRIEDIG AR DIR CLWB GOLFF STORWS WEN, BRYNTEG.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd Gymuned Brynteg i drafod datblygiad bwriedig o 36 o Fythnod Gwyliau ar dir ger a gyferbyn a Chlwb Golf Storws Wen, Brynteg ar nos Fawrth 7 o Chwefror 2017 am 7-00 o'r gloch. Yn bresennol o'r Cyngor Cymuned roedd, Mr Rhys O

Jones, Ms Gwyneth M Davies, Miss Nia Williams, Mr Dewi Roberts, Mrs Diana Roberts, Mr Jeff Cotterell a Mr Ieuan Williams a Gadeiriodd y Cyfarfod.

Yn cynrychioli Clwb Golff Storws Wen roedd, Mr Andrew Cartwright, Mr Rhys Davies a Mr Emyr Rowlands.

Rhoddodd y Cadeirydd fraslun o'r bwriad i wneud cais cynllunio a phwysleisiodd mai cyfle i'r cyhoedd a'r Cyngor Cymuned ydoedd i ofyn cwestiynau a lleisio barn yn gyhoeddus am y datblygiad bwriedig.

(Ceir nodiadau o'r cwestiynau a'r atebion a roddwyd fel atodlen i'r cofnodion.)

Trafodwyd y sefyllfa ynglyn a'r cais bwriedig gan yr aelodau yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned. Roedd barn gadarn fod y datblygiad bwriedig allan o gymeriad a'r ardal, yn creu pentref tu allan i ffiniau pentref presennol Brynteg gyda phrisiau uchel ar y bythynod gwyliau. Dylid adeiladu tai newydd fforddiadwy i ieuenctid lleol. Gwelir adeiladu bythynod gwyliau fel manteisio ar fwllch o fewn y Cynllun Datblygu Lleol presennol ac efallai buasai'r dirmygus yn ei weld fel cyfle i werthu tai ar gyfer gweithwyr Wylfa Newydd i'r dyfodol.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-30 yr hwyr.